**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2000**

## Y Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn cyflwyno darpariaethau sydd wedi'u llunio i sicrhau bod perfformiad eu swyddogaethau gan awdurdodau lleol a chyrff cysylltiedig yn bodloni safonau penodol o ran darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. "Y gwerth gorau" yw'r enw am hyn.

O dan adran 4(1) o'r Ddeddf gall y Cynulliad bennu, drwy orchymyn –

a. Y dangosyddion perfformiad y gellir mesur perfformiad wrth

   arfer swyddogaethau drwyddynt.

b. Y safonau perfformiad sydd i'w bodloni mewn perthynas

â'r dangosyddion perfformiad penodedig.

Mae'r Gorchymyn presennol yn pennu dangosyddion perfformiad ar gyfer yr "awdurdodau gwerth gorau" yng Nghymru (ac eithrio'r cynghorau cymuned) y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (gan gynnwys cynghorau o'r fath sy'n gweithredu fel awdurdodau gwaredu gwastraff), ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw'r rhain.

Nid yw'r Gorchymyn yn pennu safonau perfformiad o dan adran 4(1)(b).

## Rheol Sefydlog 11.5

Pan gyflwynwyd y Gorchymyn drafft yn gyntaf i gynghorywr cyfreithiol y Pwyllgor, nodwyd nifer sylweddol o bwyntiau drafftio, yr oedd eu pwysigrwydd yn amrywio, yn yr Atodlenni. Arweiniodd nifer ac ystod y pwyntiau hyn at bryder nad oedd yr Atodlenni wedi'u paratoi yn unol â'r safon sy'n briodol i offeryn statudol.

Er hynny, gan fod y pwyntiau hyn wedi cael sylw manwl yn y drafft presennol, y casgliad bellach yw nad oes unrhyw faterion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw

arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Serch hynny, mae rhai sylwadau cyffredinol y bernir y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt.

## Sylwadau ar y Gorchymyn

### Y Nodyn Esboniadol – yr ail baragraff

Nid yw'r cyfeiriad at gydymffurfio ag adran 4(3) yn hanfodol gan fod hwnnw wedi'i gynnwys yn y rhagymadrodd i'r Gorchymyn. Gallai fod wedi bod o gymorth, er hynny, petasai'r nodyn esboniadol wedi cyfeirio at gydymffurfio ag adran 4(4).

### Y Troednodiadau

Bydd angen dyrannu'r rhain i'w tudalennau perthnasol, a'u rhoi ar ffurf dwy golofn, yn y Gorchymyn printiedig.

### Erthygl 3 – Tabl

Gan mai'r cyfan y mae colofn 1 o bob Atodlen yn ei roi yw rhif y dangosydd, buasai'n well petasai'r geiriau "colofn 1" wedi'u hepgor o'r Tabl ym mhob man y maent yn cael eu defnyddio.

### Yr Atodlenni

Mewn nifer o enghreifftiau mae byrfoddau yn cael eu defnyddio heb esboniad. Gall fod yn briodol ystyried a fyddai'r awdurdodau lleol yn gyfarwydd â'r byrfoddau hyn ym mhob achos. Gweler, er enghraifft, AEF yn BVPI 33.

**BVPI 12**

Yn ôl yr ail baragraff mae'n ofynnol bod y rhifiadur a'r enwadur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn cael eu cyfrifo mewn ffordd gyson, ond nid yw'n amlwg ar unwaith sut y daw FTE yn rhan o gyfrifiad y rhifiadur.

**BVPI 14**

Nid yw'n amlwg ar unwaith sut y bydd y cyfeiriad at yr oedran ymddeol arferol yn y drydedd golofn yn helpu'r awdurdodau i benderfynu beth sy'n cyfrif fel ymddeoliad cynnar. Byddai rhywun yn disgwyl i ymddeoliad gael ei benderfynu gan beth bynnag yw'r oedran ymddeol arferol ar gyfer y categori penodol o weithiwr o dan sylw.

**BVPI 34 a 36**

Nid yw’r is-lythrennu’n gyson o ran defnyddio lythrennau mawr a bach.

**BVPI 45 a 46**

Nodir bod y manylion yng ngholofn 3 yn cyfyngu’r dangosyddion hyn i’r flwyddyn academaidd 2000/2001 yn unig.

**BVPI 48**

Er bod cyfeiriad yng ngholofn 2 at ddangosydd sy’n gweithredu am flwyddyn yn unig, nodir bod cyfeiriad yng ngholofn 3, mewn bachau petryal, at –

"[o’r flwyddyn adrodd]".

**BVPI 58**

O dderbyn ei bod yn cael ei chymryd yn ganiataol fod pob gofyniad canrannol arall yn yr Atodlenni yn gofyn am un ffigur canrannol yn unig, nid yw’n amlwg ar unwaith pam mae angen dweud yn yr achos hwn mai dim ond un ganran y dylid ei chael.

**BVPI 60**

Yng ngholofn 2 mae’n ymddangos ei bod yn ofynnol cael gwybodaeth oddi wrth defnyddwyr a gofalwyr. Er hynny, nid yw’n ymddangos bod hyn yn cael ei adlewrchu yng ngholofn 3, sy’n cyfeirio at arolygon boddhad defnyddwyr yn unig.

**BVPI 64**

Deellir bod colofn 2 yn golygu bod y dangosydd hwn yn gymwys am y flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2000 yn unig.

**BVPI 85, 86, 91 a 117**

Mae byrfoddau (AEF, MRF, CIPFA) yn cael eu cyflwyno ond nid yw’n ymddangos eu bod wedi’u defnyddio.

**BVPI 115 a 117**

Mae’n ymddangos bod 115 yn cyfeirio at ymweliadau go iawn er bod 117 yn awgrymu mai’r

unig wybodaeth a fydd ar gael fydd gwybodaeth am y nifer o ymweliadau a amcangyfrifir.

**J H TURNBULL**

**Cynghorydd Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-065

27 Mawrth 2000